

Ysgol Feddygaeth Prifysgol Keele

Cymynroddi Eich Corff

Bydd Ysgol Feddygaeth Prifysgol Keele yn hyfforddi dros 6000 o feddygon a thros 12,000 o weithwyr ieched eraill yn yr hanner canrif nesaf yn ei chyfleusterau mwyaf modern ar Gampws Prifysgol Keele ac Ysbyty Athrofaol Gogledd Swydd Stafford yn Stoke on Trent.

Yn 2013 agorwyd Swît Hyfforddiant Llawfeddygol newydd yn yr Ysgol Feddygaeth, sydd wedi ehangu cwmpas yr hyfforddiant ac yn darparu cyfleusterau gwell i Lawfeddygon ac yn cynyddu nifer y Proffesiynolion Meddygol yr ydym yn gallu eu cynorthwyo â'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Rydym yn gweithio gyda darparwyr cyrsiau allanol sy'n defnyddio cyrff a roddwyd. Dim ond ar gyfer cyrsiau a gymeradwywyd, lle y gellir dangos bod budd meddygol i'r gymdeithas, y mae hyn. Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu rhedeg gan Lawfeddygon a Meddygon arbenigol iawn er mwyn gwella llawdriniaethau.

Rydym yn cydweithredu hefyd ag Ysgolion Meddygol eraill yng Nghymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr er mwyn sicrhau bod y rhoddion o fudd ledled yr ardal lle y mae ein rhoddwyr yn preswyllo.

Codir ffioedd yn y naill achos a'r llall i dalu costau cludo, gweinyddu a pharatoi.

Sut gallwch chi helpu?

Mae meddygaeth yn fwyaf diolchgar i'r unigolion cymwynasgar hynny sy'n cymynroddi eu cyrff o dan y Ddeddf Meinweoedd Dynol, ar gyfer eu defnyddio ar ôl eu marwolaeth i helpu meddygon a gwyddonwyr ieched eraill i ddysgu am gymhlethdodau'r corff dynol, paratoi ar gyfer ymarfer clinigol, a gwneud ymchwil feddygol.

Gwybodaeth bwysig.

Nid yw derbyn eich ffurflen ganiatâd ynglŷn â'ch cymynrodd yn warrant yn byddwn yn gallu derbyn eich corff ar ôl eich marwolaeth. Mae gennych hawl hefyd i dynnu'n ôl eich caniatâd ar unrhyw bryd.

Ymholiadau i: Bequeathals Office
School of Medicine Anatomy Facility
Keele University
Staffordshire ST5 5BG

Ffôn: 01782 734690

Gwybodaeth: www.keele.ac.uk/medicine/anatomy

Luke Welsh, Cyfarwyddwr Anatomeg